

## **Gweithdrefnau ar gyfer Asesiadau a Gyflwynir yn Gymraeg pan Addysgir trwy gyfrwng y Saesneg.**

1. Yn unol â rheoliadau'r Brifysgol ar Asesu trwy Gyfrwng y Gymraeg (A1.122), mae hawl gan fyfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Saesneg i gyflwyno asesiadau, gwaith cwrs ac arholiadau, yn Gymraeg.

Os yw myfyrwyr yn dymuno cyflwyno asesiadau yn Gymraeg, rydym yn argymhell bod myfyrwyr yn dweud wrth arweinydd y modiwl ar ddechrau modiwl, a dim hwyrach na thair wythnos cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r asesiad, er mwyn gwneud y trefniadau angenrheidiol.

Efallai na fyddwn yn gallu asesu myfyrwyr trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer rhai mathau o asesu, er enghraifft, asesiadau grŵp, cyflwyniadau, perfformiadau neu arholiadau ymarferol.

2. Dylai myfyrwyr sy'n dymuno cyflwyno asesiadau yn Gymraeg sicrhau eu bod yn hyderus yn safon eu Cymraeg ysgrifenedig a dylent ofyn am arweiniad gan Ganolfan Galw Heibio'r Gwasanaethau Dysgu neu gan yr Uned Gymraeg os oes ganddynt unrhyw bryderon. Lle bo angen cyfieithu gwaith a gyflwynir i'w asesu yn Gymraeg cyn cael ei farcio, rhaid i fyfyrwyr dderbyn bod risg ymhlyg wrth gyfieithu asesiadau. Dylid anfon unrhyw bapurau arholiad sydd angen eu cyfieithu i'r Gymraeg i'r Uned Gymraeg o leiaf fis cyn cyfnod yr arholiad.
3. Arweinydd y Modiwl sy'n gyfrifol am sicrhau y gwneir trefniadau priodol i farcio gwaith a gyflwynwyd yn Gymraeg. Gellir derbyn arweiniad gan yr Uned Gymraeg yn ogystal ag uwch weinyddwyr yn y gyfadran. Dylai Arweinydd y Modiwl gyflwyno'r ffurflen i uwch weinyddwr dynodedig yn y gyfadran a fydd, gyda'r Uned Gymraeg, yn trafod pa drefniadau y dylid eu gwneud.
4. Y dilynol yw'r tri opsiwn ar gyfer marcio'r gwaith lle nad yw'r arholwr mewnol arferol yn siarad Cymraeg ac felly nad yw'n gallu marcio'r asesiadau yn Gymraeg:
  - i) ystyried a oes aelod arall o staff sy'n siarad Cymraeg yn rhugl sydd â dealltwriaeth ddigonol yn y maes a all farcio yn Gymraeg (ar lefel israddedig mae'n debyg y bydd aelod o staff addysgu sy'n siarad Cymraeg yn dysgu mewn maes cysylltiedig sy'n gymwys i farcio asesiadau nad ydynt yn gofyn am wybodaeth fanwl iawn neu dechnegol o'r pwnc);
  - ii) ystyried a oes arholwr cysylltiol (h.y. rhywun o'r tu allan i'r sefydliad a allai chwarae'r un rôl ag 'arholwr mewnol') sydd â phrofiad o AU sy'n gymwys yn y Gymraeg a'r maes ac sydd yn barod i farcio'r gwaith;

os na fydd i) neu ii) yn bosibl,

iii) cyfieithu'r gwaith i'r Saesneg i'w farcio gan yr arholwr mewnol arferol.

5. Yn achos i) uchod, rhaid bod trafodaeth rhwng y marciwr mewnol arferol a'r marciwr mewnol amgen am y meini prawf marcio a'r deilliannau dysgu, a bydd y marciwr amgen yn edrych ar nifer o sgriptiau a farciwyd yn Saesneg hefyd i sicrhau cysondeb wrth farcio. Cyn cyflwyno'r marc terfynol, dylid cynnal trafodaeth rhwng y marciwr mewnol a'r marciwr mewnol amgen ar y sgript Gymraeg a farciwyd.
6. Yn achos ii) uchod, dylai'r marciwr mewnol arferol a'r arholwr cysylltiol gynnal yr un drafodaeth a amlinellwyd yn 5 uchod.
7. Gall yr Uned Gymraeg gyfieithu asesiadau. Ewch i dudalennau'r Uned Gymraeg ar Cyswllt i gwblhau Ffurflen Gais am Gyfieithu a chliciwch ar 'Cyfieithu' i lawr lwytho'r

ffurflen <https://universityofsouthwales.sharepoint.com/sites/cymraeg/sitepages/en-cy/translation.aspx>

Ar ôl cwblhau, e-bostiwch y ffurflen a'r gwaith sydd angen eu cyfieithu at [translations@southwales.ac.uk](mailto:translations@southwales.ac.uk)

Dylid rhoi cyfarwyddiadau i'r cyfieithydd:

- a) gyfieithu heb newid ystyr y ddadl neu wella eglurdeb y mynegiant
- b) roi sylwadau am gyflwyniad ieithydd cyffredinol yn y fersiwn Gymraeg gwreiddiol
- c) adlewyrchu union gyflwyniad, diwyg ac ymddangosiad y gwreiddiol yn y cyfieithiad.

Wedyn, caiff y gwaith ei farcio gan y marciwr mewnol arferol, a allai ymgynghori â'r cyfieithydd i drafod unrhyw agweddau penodol ar y cyfieithiad.

8. Bydd hawl gan y myfyriwr i weld y fersiwn o'r asesiad a gyfieithwyd, a bydd gofyn iddo/iddi lofnodi i gadarnhau ei fod yn cydymffurfio â'r gwaith Cymraeg gwreiddiol a gyflwynwyd ganddo/ganddi. Rhaid i unrhyw gywiriadau angenrheidiol gael eu cyfeirio at y cyfieithydd yn uniongyrchol yn hytrach na'r myfyriwr. Rhaid i'r myfyriwr beidio â gwneud unrhyw ychwanegiadau neu ddiwygiadau i'r fersiwn Saesneg ar wahân i awgrymu cywiriadau i'r cyfieithiad.
9. Dylai'r arholwr allanol gael ei hysbysu am unrhyw asesiadau sydd wedi'u cyflwyno yn Gymraeg ac wedi cael eu marcio naill ai gan farciwr mewnol amgen, gan arholwr cysylltiol neu waith sydd wedi'i gyfieithu.

## Cais i Gyflwyno Gwaith i'w Asesu yn Gymraeg

Rydym yn argymhell bod myfyrwyr sy'n dymuno cyflwyno gwaith i'w asesu yn Gymraeg mewn modiwl a addysgir yn Saesneg yn hysbysu'r Brifysgol, **ar ddechrau modiwl, a dim hwyrach na thair wythnos cyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno**, trwy lenwi'r ffurflen hon a'i dychwelyd i'r Arweinydd Modiwl. Dylai myfyrwyr ddarllen y gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno asesiadau yn Gymraeg sydd ynghlwm i'r ffurflen hon.

Bydd y Brifysgol yn gwneud ei orau i wneud y trefniadau angenrheidiol i farcio gwaith a gyflwynwyd yn Gymraeg ond ni all warantu ei bod yn gallu gwneud hynny ar gyfer pob math o asesu. Dylai myfyrwyr drafod eu dymuniad i gyflwyno gwaith yn Gymraeg gydag Arweinydd y Modiwl hefyd a chael cyngor ac arweiniad pellach gan yr Uned Gymraeg trwy e-bostio [cymraeg@decymru.ac.uk](mailto:cymraeg@decymru.ac.uk)

**Cyfenw:**

**Enw Cyntaf:**

**Rhif Cofrestru'r Myfyriwr:**

**Cyfadran:**

**Cwrs:**

Rwy'n dymuno cyflwyno asesiadau ar gyfer y modiwlau canlynol yn Gymraeg.

(D.S.: - mae gwybodaeth am yr asesiadau ar gyfer pob modiwl ar gael yn Llawlyfr y Modiwl)

Cod y Modiwl	Teitl y Modiwl	Asesiadau/Arholiadau rwy'n dymuno eu sefyll yn Gymraeg	Dyddiad cyflwyno'r Aseiniad / Mis yr Arholiad

**Cyflwynwch y ffurflen hon i Diwtor y Modiwl, os yn bosibl ar ddechrau modiwl, neu ddim hwyrach na thair wythnos cyn y dyddiad cyflwyno, os gwelwch yn dda.**

Llofnod:

Dyddiad:

-----  
**Derbyniwyd gan Diwtor y Modiwl:**

Llofnod:

Dyddiad:

**Trosglwyddwyd i Staff Gweinyddol y Gyfadran:**

Dyddiad:

**Trefniadau marcio:**

Arholwr mewnol arferol yn gymwys i farcio yn Gymraeg:

Arholwr mewnol amgen ar gael:

Angen adnabod arholwr cysylltiol gyda phrofiad AU:

Gwaith i'w gyfieithu:

(Os oes angen cyfieithiad, mae'n rhaid i'r Gyfadran drefnu hynny)

Llofnod: ..... Dyddiad: .....

(Gweinyddwr y Gyfadran)